02.02.2023

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Rhamant, teimlad tebyg i ŵyl a chyw iâr wedi ei ffrio!

Y tro hwn ar **Priodas Pum Mil** ar S4C mae'r darpar briodferch Miriam Horton wrth ei bodd gyda rhamant - ac mae hi eisiau i'w diwrnod mawr fod yn un rhamantus iawn. Ond mae ei phartner Joe Hughes eisiau rhywbeth mwy hamddenol gydag awyrgylch tebyg i ŵyl.

Tybed os gall Emma Walford a Trystan Ellis Morris - gyda help llaw gan deulu a ffrindiau'r cwpl hapus - drefnu diwrnod i'w gofio sy'n plesio Miriam a Joe sy'n byw yn Llangennech gyda'u plant Marley ac Eden?

Mae Miriam yn amlwg yn fenyw sy'n gwybod beth y mae hi eisiau.

"Ro'n i'n gweithio yng Nghlwb Rygbi Yr Hendy rhyw noson. Ro'n i'n gweithio lan llofft - fel arfer dwi'n gweithio yn y bar lawr stâr - ond ddim ar y noson hon. Des i lawr stâr i nôl iâ a nes i sbotio Joe wrth y bar. Nes i decstio fy ffrind i ddweud fy mod i wedi gweld y dyn oni'n mynd i briodi!" meddai Miriam.

Ac yn ddigon gwir, fe wnaeth Joe ofyn i Miriam i'w briodi yn fuan iawn ar ôl genedigaeth Eden - er ar y pryd mi fyddai wedi bod yn well gan Miriam dderbyn cyw iâr wedi'i ffrio yn lle modrwy dyweddïo - ond mwy am hyn wedyn...

Felly beth, yn ddelfrydol, hoffai Miriam a Joe ar ddiwrnod eu priodas?

"Hoffwn i gael rhyw thema gwŷl - pabell, bwyd stryd, cerddoriaeth fyw," meddai Joe.

Mae Miriam yn cytuno. "Ry' ni'n wrth ein boddau mynd i wyliau bwyd a phrofi pethau newydd - a dwi'n rili hoffi *candy floss* a thân gwyllt!" meddai hi.

Mae teulu Joe yn awgrymu man rhamantus dros ben i gynnal y briodas a'r parti sef Caerhyn yn Llangadog. Hen sgubor sydd wedi cael ei thrawsnewid i leoliad perffaith ar gyfer priodasau rhamantus ond ymlaciol hefyd.

Mae Emma a Trystan yn gweithio'n galed ond yn cael digon o hwyl hefyd, wrth gwrs, wrth helpu allan gyda chreu'r *buttonholes* - tybed os cawn nhw ostyngiad ym mhris y blodau priodas?

Mae sawl sypreis ar y diwrnod mawr, gan gynnwys un sydd wedi cael ei ysbrydoli gan hoff ffilm Miriam, 'Love Actually'.

Ond beth yw hyn? Mae gan Emma sypreis arall i'r cwpl sy'n golygu taith munud olaf i fwyty cyw iâr wedi'i ffrio adnabyddus. Pam tybed? A beth yw cysylltiad Miriam a Joe gyda'r têcawe poblogaidd? Bydd rhaid gwylio **Priodas Pum Mil** i ddarganfod mwy.

Felly beth yw teimladau Miriam a Joe am eu diwrnod mawr? Ar ôl y sgwrs gyntaf, wnaeth Joe a Miriam drosglwyddo'r holl waith drefnu at eu teulu, ffrindiau a Trystan ac Emma.

"Dwi'n hollol *overwhelmed* gyda beth maen nhw wedi gwneud i ni. Rwy'n gwybod cymaint o amser mae e wedi cymryd ac yn deall yn iawn cymaint o ymdrech maen nhw wedi rhoi mewn i'n diwrnod mawr. Dwi methu diolch digon iddyn nhw - am ddiwrnod perffaith," meddai Miriam.

**Priodas Pum Mil**
**Nos Sul 12 Chwefror 8.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

02.02.2023

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Romance, a festival vibe and fried chicken!

This time on **Priodas Pum Mil**, bride to be Miriam Horton just loves a bit of romance – and she wants her big day to be very romantic but her partner Joe Hughes wants something a little more chilled with a festival vibe.

Can Emma Walford and Trystan Ellis Morris – with the help of the happy couple's family and friends – organise a day to remember which will please both Miriam and Joe who live in Llangennech with their children Marley and Eden.

Miriam is obviously a woman who knows what she wants.

"I was working on this particular night in Hendy Rugby club. I was working upstairs – I usually work downstairs – but not on this night. I came down to get some ice and I spotted Joe by the bar. I texted my friend to say that I had seen the man I was going to marry!," said Miriam.

And sure enough, Joe asked Miriam to marry him shortly after their daughter Eden was born – although at the time Miriam would have preferred some fried chicken instead of an engagement ring – but more of this later...

So what would Miriam and Joe like, ideally, on their wedding day?

"I would like some sort of festival theme – a marquee, street food and live music," said Joe.

Miriam agrees. "We love going to food festivals and trying new things – and I really like candy floss and fireworks!," she said.

Joe's family suggests a very romantic place for the wedding and the party - Caerhyn in Llangadog – in an old barn which has been converted into a perfect venue for a wedding which is romantic but laid back too.

Emma and Trystan work hard on the wedding planning but have some fun too as they help out by making the buttonholes – will their efforts earn them a reduction in the cost of the wedding flowers?

There are several surprises on the day – including one which is inspired by Miriam's favourite film 'Love Actually'.

But what is this? Emma has another surprise for the couple which involves a trip to a well-known fried chicken place. Why? And what is Joe and Miriam's connection to the popular takeaway food place? Watch **Priodas Pum Mil** on Sunday, 12 February to find out more.

So how do Miriam and Joe feel about their big day? After the initial chat, the couple played no part in the organisation of their big day but put their trust in their family, friends and Trystan and Emma.

"I am completely *overwhelmed* by what they've done for us. I know how much time it has taken and how much effort they have put into the day. I can't thank them enough – what a perfect day," said Miriam.

**Priodas Pum Mil**
**Sunday 12 February 8.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**